YMDDYDDAN

RHWNG

Y PARCHEDIG A'R "BACHGENYN."

P. [illegible], Wil[illegible]r io glywed im'; wyt ti yn un o'r Saint?
A hudwyd di i['r] du twyll o'r fath anferthol faint?
B. [illegible] raid ddweyd, Barchedig Syr, o'r Saint 'rwy'n gwneuthur un,
A [illegible] am fod eu crefydd hwy o drefniad Crist ei hun.

P. Beth w[y]r rhyw hogyn bach fel ti, am grefydd Iesu Grist?
Mae'r Saint, yn siwr, yn myn'd a thi ar frys i uffern drist.
B. Mae'n wir na wn ond 'chydig iawn; ond gwn fod Crist yn fyw,
A bod ei eiriau oll yn wir [illegible]ce's wybod hyn gan Dduw.

P. Mae'n oes rhy oleu 'nawr i neb, i gredu peth mor ffol;
'Roedd Duw yn rhoddi gwybod *gynt*, ond tynodd hyny 'nol.
B. Mae'n rhoddi gwybod '*nawr*, yn siwr; 'rwy'n dyst fod Duw yr un:
Pwy bynag wna'i ewyllys Ef, caiff wybod hyn ei hun.

P. O, taw! paid cellwair, blentyn ffol; 'rwyt yn rhyfygu 'nawr.
A wyddost ti yn well nag un sy'n was i'r Iesu mawr?
B. 'Rych chwi yn hyddysg, Syr, mi wn, ac un o uchel ach;
Ond rhaid eich gwneyd, cyn gwybod dim, fel un sy'n blentyn bach.

P. A'r Saint a'th ddysgant di fel hyn, i gablu gwas i Dduw?
Da blentyn, gad y tylwyth cas, sydd ar eu twyll yn byw.
B. At bwy yr af i ddysgu'n well orch'mynion Crist digoll;
'Rych chwi a'ch plaid yn dweyd yn hyf, nad y'nt i'w dysgu *oll*.

P. Na chreda ddim a dd'wed y Saint—gan bawb d'ystyrir hwy
Dos at ryw enwad parchus, grwt; na chymmer d'erlid mwy.
B. Pob rhai sy'n arddel crefydd gau, a berchir gan y byd;
Ond d'wedodd Crist am danom ni, mai'n herlid gaem o hyd.

P. Paid colli'th enaid, blentyn mwyn, wrth ddilyn sect mor ffol:—
Mi'th ddodaf mewn sefyllfa wych, os gwnai di droi yn ol.
B. [illegible] dd'wedodd Crist mai gwae y sawl a rwystrai un fel fi;
Gwell fyddai ['i] glymu ef wrth [illegible], a'i soddi yn y lli.

P. Y Satan bach!—'Rwy'n myn'd o'th wydd, ni phoenaf wrthyt mwy;
[illegible] gredu'r Saint, a cherdd mewn twyll i uffern gyda hwy.
B. Y temtiwr [illegible]ac, O! fy Nhad, yr hwn wyt yn y nef,
'Rwy'n diolch it' am roddi i erth, i'w lwyr orchfygu ef.

GWRANDAWWR.